# Arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys sut rydych chi'n cefnogi'r gwaith o asesu eu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol ac ieithyddol. Mae hefyd yn cynnwys arwain rhaglenni strwythuredig sy'n hybu twf a dysg ac yn hwyluso dulliau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar chwarae mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc, teuluoedd ac eraill. Mae hefyd yn cynnwys sut y byddech yn hwyluso datblygiad plant drwy gasglu data'n effeithiol, yn ogystal â monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. arwain gweithdrefnau ar gyfer arsylwi, asesu ac adolygu datblygiad plant neu bobl ifanc
2. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith o arsylwi, gan sicrhau eich bod yn cydweithio ag eraill
3. neilltuo amser ac adnoddau ar gyfer arsylwi yn ystod profiadau strwythuredig sy'n seiliedig ar chwarae
4. gweithio gyda phlant neu bobl ifanc ac eraill i feithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol
5. sicrhau a chefnogi annibyniaeth plant neu bobl ifanc ac eraill mewn asesiadau
6. sicrhau bod asesiadau'n canolbwyntio ar y plentyn, yn ddilys ac yn ddibynadwy, gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth amrywiol
7. gweithio gydag eraill i ddatblygu gwahanol ddulliau ar gyfer arsylwi ac asesu plant neu bobl ifanc
8. sicrhau bod arsylwadau, asesiadau ac adolygiadau'n cael eu cofnodi
9. defnyddio gwybodaeth fonitro i lywio'r ddarpariaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion datblygiadol
10. cynllunio darpariaeth gytbwys a hyblyg ag eraill, gan integreiddio chwarae ac archwilio
11. annog plant neu bobl ifanc i gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio darpariaeth sy'n cwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion datblygiadol
12. mynd ati gydag eraill i nodi a dod o hyd i'r cymorth ychwanegol sydd ei angen ar

gyfer plant neu bobl ifanc

13.
arwain y gwaith o fonitro a chofnodi cynnydd unigolion, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu datblygiad holistaidd plant neu bobl ifanc

14.
cydlynu systemau, gweithdrefnau ac arferion sy'n cefnogi datblygiad plant neu bobl ifanc

15.
arwain eraill yn y gwaith o hybu gwydnwch plant neu bobl ifanc a'u gallu i hunanreoleiddio

16.
cyfathrebu disgwyliadau o ran ymddygiad i blant neu bobl ifanc ac eraill

17.
nodi a rhoi technegau ar waith i gefnogi datblygiad mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc ac eraill

18.
gwerthuso effeithiolrwydd y cymorth ar gyfer datblygiad plant neu bobl ifanc

19.
sicrhau bod lleisiau plant neu bobl ifanc yn cael eu clywed mewn cynlluniau dysgu a datblygu personol

20.
cefnogi eraill i ddiweddaru cofnodion cynnydd datblygiadol

21.
cymryd cyfrifoldeb dros systemau atgyfeirio pan fydd pryderon am gynnydd datblygiadol yn codi

22.
cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer datblygiad holistaidd plant neu bobl ifanc

23.
myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant neu bobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
sut mae cefnogi plant a phobl ifanc â’r newidiadau y gallant eu profi
2.
datblygiad cyn geni a ffactorau sy'n effeithio ar dwf y ffetws a datblygiad yr ymennydd
3.
y patrwm o ran datblygiad o adeg geni hyd at 21 oed
4.
dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
5.
dylanwad diwylliant a chefndir ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
6.
yr ystod o ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy’n effeithio ar ddatblygiad plant a phobl ifanc
7.
sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma wrth ddarparu ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc
8.
eich rôl o ran arwain gweithdrefnau’r gweithle ar gyfer arsylwi ac asesu, a sut mae'r rhain yn cysylltu â fframweithiau cwricwlwm neu ddatblygu
9.
sut mae rheoli a threfnu amgylcheddau ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n hwyluso ymlyniadau diogel ac yn annog llesiant emosiynol a gwydnwch
10.
sut mae hybu ffordd iach o fyw ar gyfer plant a phobl ifanc
11.
y cyfraniad mae chwarae'n ei wneud at ddatblygiad holistaidd
12.
sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi datblygiad gwybyddol a dysgu
13.
sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi

cyfathrebu, iaith a llythrennedd
14.
sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi datblygiad corfforol
15.
sut mae darparu mannau a rhaglenni o brofiadau a rhyngweithiadau i gefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol
16.
sut mae sicrhau bod mannau, profiadau a rhyngweithiadau yn cael eu hasesu am risg ac yn cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol
17.
sut mae arwain systemau, gweithdrefnau ac arferion sy'n cefnogi datblygiad plant a phobl ifanc
18.
sut mae cefnogi eraill i addasu eu hymarfer ac amgylcheddau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan gyfartal
19.
sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi mewn perthynas â datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc
20.
sut mae annog ymatebion realistig, cyson a chefnogol i ymddygiad plant a phobl ifanc
21.
sut mae hybu datblygiad plant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n cefnogi rheoleiddio emosiynol
22.
sut mae ymateb i adroddiadau ynghylch gwahaniaethu
23.
pwysigrwydd arwain eraill wrth ddarparu mannau, profiadau a rhyngweithiadau sy'n adlewyrchu cyfiawnder cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, dinasyddiaeth fyd-eang a dysgu yn yr awyr agored
24.
sut mae gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau dysgu a datblygu
25.
sut mae defnyddio dull gwella ansawdd i gefnogi gwelliant parhaus a chynnal safonau ansawdd ar gyfer dysgu a datblygu
26.

sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

27.

sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

28.

y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

29.

theorïau sy’n berthnasol i arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

30.

y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

31.

gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

32.

sut y gall eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn

33.

rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD429

Arwain darpariaeth ar gyfer datblygiad holistaidd plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD429 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygiad Holistaidd Plant a Phobl Ifanc, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |